**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

19 Mawrth 2019

Annwyl Syr / Madam

**Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – Ymgynghoriad**

Cyflwynwyd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ym mis Gorffennaf 2012 a daeth yn gyfraith yng Nghymru ar 29 Ebrill 2013. Roedd y Ddeddf yn amcanu i gryfhau a gwella atebolrwydd a threfniadau llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gan sicrhau annibyniaeth a gwrthrychedd yr Archwilydd Cyffredinol ar yr un pryd.

Mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf, a fydd yn canolbwyntio ar ddwy agwedd:

1. Ystyried materion a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gan gynnwys:
   - Codi ffioedd
   - Trefniadau cworwm Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
   - Trefniadau adrodd Swyddfa Archwilio Cymru
   - Problemau â gosod cyfrifon ac adrodd arnynt
2. Ystyried i ba raddau y gallai agweddau eraill ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 elwa ar gael eu hadolygu.

Os ydych chi'n gorff sy'n cael ei archwilio yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn clywed eich sylwadau ynghylch y drefn o godi ffioedd.

Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad ar wefan y Cynulliad:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=350&RPID=1514865213&cp=yes

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â buddiant yn y pwnc hwn.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgyngoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i **SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru**

Fel arall, ysgrifennwch at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 3 Mai 2019. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn. **Mae canllawiau** ar gael i'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu gwybodaeth**
Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld yma. Cofiwch ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, gellir gwneud cais am gopi caled o'r polisi hwn drwy gysylltu â'r Clerc, Bethan Davies (0300 200 6372 neu seneddcyllid@cynulliad.cymru).

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565